

Rydym yn recriwtio Cyfarwyddwr newydd i Gymru (Dros Dro)

Diben y Cyfarwyddwr yng Nghymru (Dros Dro) yw arwain ein hymgysylltiad â Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd, gweithwyr llawfeddygol proffesiynol, a grwpiau rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

Gan weithio'n agos gyda'r Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus (Cymru), byddwch yn meithrin perthnasoedd i gasglu adborth lleol ar y materion sy'n effeithio ar aelodau a chymrodyr yng Nghymru, yn ogystal â darparu arweinyddiaeth i Fwrdd Cymru. Bydd y rôl hon hefyd yn helpu i nodi meysydd ar gyfer cymorth drwy ddigwyddiadau/gwasanaethau RCS Lloegr, a hyrwyddo mecanweithiau cymorth y Coleg ar gyfer llawfeddygon ar bob cam o'u gyrfu.

Bydd y Cyfarwyddwr yng Nghymru (Dros Dro) yn cael ei wahodd i gyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Rhanbarthol a bydd yn cadeirio Bwrdd Cymru; arwain ein rhwydwaith o Gyngorwyr Proffesiynol Arbenigedd Rhanbarthol a Thiworiaid Llawfeddygol, a gyrru ein nodau strategol yn eu blaenau.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi am gyfnod cychwynnol o chwe mis, gyda phosibilrwydd o estyniad.

Gwybodaeth am wneud cais

- Gwahoddir ceisiadau am y swydd uchod gan lawfeddygon sy'n gweithio yng Nghymru. Mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais – sylwch na fydd CVs yn cael eu derbyn.
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 18 Mawrth 2022. Anfonwch eich ffurflen gais at Jenna Cowling, Rheolwr Allgymorth (De) drwy e-bost: JCowling@rcseng.ac.uk
- Cynhelir cyfweiliadau wyneb yn wyneb ddydd Iau 31 Mawrth 2022 (lleoliad i'w gadarnhau). Gofynnir i ymgeiswyr ar y rhestr fer roi cyflwyniad deng munud yn amlinellu sut y byddent yn cyflawni'r swyddogaethau craidd yn y disgrifiad swydd.
- I wneud cais, gweler y disgrifiad rôl a'r nodiadau canllaw i ymgeiswyr, a'r ffurflen gais isod.
- I drafod y rôl yn fanwl, cysylltwch ag Alice Jones, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus (Cymru): AJones@rcseng.ac.uk.

I wneud cais

- [Disgrifiad rôl Cyfarwyddwr yng Nghymru \(Dros Dro\) a nodiadau canllaw i ymgeiswyr - Director in Wales \(Interim\) Role description in Welsh](#)
- [Ffurflen gais](#)

Nodiadau canllaw i ymgeiswyr

Statws cyflogaeth: Rhaid i ymgeiswyr fod yn feddygon ymgynghorol neu'n llawfeddygon Arbenigedd Arbenigol neu Gysylltiol (SAS) sy'n gweithio mewn swydd barhaol yng Nghymru. Gall meddygon ymgynghorol sydd wedi ymddeol neu lawfeddygon SAS nad ydynt yn hirach na dwy flynedd allan o ymarfer clinigol ac a oedd yn gweithio mewn swydd barhaol yng Nghymru cyn ymddeol wneud cais hefyd.

Cymrodoriaeth Colegau Brenhinol llawfeddygol: Mae cymrodwr o unrhyw un o Golegau Brenhinol llawfeddygol Prydain Fawr ac Iwerddon yn gymwys i wneud cais. Fodd bynnag, bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus nad ydynt yn Gymrodwr o Goleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr gymryd y Gymrodoriaeth trwy drosglwyddiad ar adeg dechrau yn y swydd.

Datganiad ategol: Dylai ymgeiswyr geisio dangos bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau y gofynnir amdanynt ym manyleb y person yn y datganiad ategol. Ychwanegwch unrhyw wybodaeth berthnasol arall y teimlwch sy'n cefnogi'ch cais.

Ymgeiswyr rhannu swydd: Bydd disgwyl i ymgeiswyr rhannu swydd gyflwyno un ffurflen gais fesul ymgeisydd. Bydd angen iddynt hefyd gwblhau'r adran ar y cais gan amlinellu pam fod y model rhannu swydd yn addas ac yn fuddiol a sut bydd y trefniant rhannu swydd yn gweithio'n ymarferol, e.e. ar hyd llinellau daearyddol, a chynnig cydlynol ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau craidd yn y disgrifiad swydd fel menter ar y cyd.